# Ymgynghoriad Rheolau Safonol Rhif 12 Ailgylchu Metelau

**Rheolau Safonol ar gyfer y Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol**

**Hydref 2014**

Cyhoeddwyd gan:
Cyfoeth Naturiol Cymru
Tŷ Cambria
29 Heol Casnewydd
Caerdydd
CF24 0TP

0300 065 3000 (Llun – Gwener, 8am – 6pm)

enquiries@naturalresourceswales.gov.uk
www.cyfoethnaturiol.cymru

© Cyfoeth Naturiol Cymru

Cedwir pob hawl. Cewch atgynhyrchu'r ddogfen hon trwy ganiatâd o flaen llaw gan Cyfoeth Naturiol Cymru

# Crynodeb

Mae Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) 2010 yn ein galluogi i gynnig trwyddedau safonol, er mwyn lleihau'r baich gweinyddol ar fusnes wrth gynnal safonau amgylcheddol. Maent wedi'u seilio ar setiau o reolau safonol y gallwn eu gweithredu ledled Cymru a Lloegr. Mae'r rheolau yn cael eu datblygu gan ddefnyddio asesiadau o'r risg amgylcheddol sy'n deillio o'r gweithgaredd.

Mae'r rheolau yn cymryd cryn dipyn o amser, adnoddau a gwaith ymgynghori i'w datblygu, ond ar ôl iddynt gael eu gosod ar waith, maent yn gwneud y gwaith gweithredu'r ceisiadau a phenderfynu arnynt yn gymharol hawdd. Y rheswm dros hyn yw oherwydd nad oes angen asesiad risg penodol i'r safle.

Dyma'r deuddegfed ymgynghoriad ar setiau o reolau safonol ac asesiadau risg cysylltiedig.

Rydym yn cynnig diwygio chwe rheol safonol bresennol sy'n cwmpasu prosesau ailgylchu metelau, storio cerbydau, dadlygru a datgymalu cerbydau,  a storio a thrin cyfarpar trydanol ac electronig sy'n wastraff (gweler Adran 3), ac un set newydd o reolau ac asesiadau risg mewn perthynas â chyfuno'r ddwy reol bresennol (gweler Adran 4).

Ceir ymgynghoriad ar y set o reolau presennol canlynol:

1. SR2008 Rhif 20 Cyfleuster ar gyfer storio, dadlygru a datgymalu cerbydau (triniaeth awdurdodedig)

2. SR2008 Rhif 21 Safle ailgylchu metelau

3. SR2008 Rhif 23 Cyfleuster triniaeth awdurdodedig ar gyfer cyfarpar trydanol ac electronig sy'n wastraff

4. SR2011 Rhif 2 Safle ailgylchu metelau

5. SR2011 Rhif 3 Cyfleuster triniaeth awdurdodedig a safle ailgylchu metelau ar gyfer storio, dadlygru a datgymalu cerbydau

6. SR2012 Rhif 14 Cyfleuster triniaeth awdurdodedig ar gyfer storio, dadlygru a datgymalu cerbydau ac ailgylchu metelau.

Hoffem dderbyn eich barn ar y newidiadau arfaethedig canlynol i un neu fwy o'r setiau o reolau safonol hyn.

Byddwn yn rhoi ystyriaeth i'r broses ymgynghori ac yn cyhoeddi'r rheolau safonol newydd, ar y cyd gyda manylion y broses gwneud cais.

# Cynnwys


**1 Ynglŷn â'r ymgynghoriad hwn 1**

1.1 Yr hyn rydym yn ymgynghori amdano 1

1.2 Yr hyn mae'r ymgynghoriad hwn yn ei olygu i chi 1

**2 Trwyddedau safonol – sut maent yn gweithio 2**

2.1 Beth yw trwydded safonol? 2

2.2 Beth yw'r rheolau safonol? 3

2.3 Yr asesiad risg generig ar gyfer y gweithgaredd hwn 4

**3. Setiau o reolau diwygiedig arfaethedig 5**

3.1 Rheolau diwygiedig ar gyfer SR2008 Rhif 20 Cyfleuster (triniaeth awdurdodedig) ar gyfer storio, dadlygru a datgymalu cerbydau 5

3.2 Rheolau diwygiedig ar gyfer SR2008 Rhif 21 Safle Ailgylchu Metelau 5

3.3 Rheolau diwygiedig ar gyfer SR2008 Rhif 23 Cyfleuster triniaeth awdurdodedig ar gyfer cyfarpar trydanol ac electronig sy'n wastraff 6

3.4 Rheolau diwygiedig ar gyfer SR2011 Rhif 2 Safle Ailgylchu Metelau 6

3.5 Rheolau diwygiedig ar gyfer SR2011 Rhif 3 Cyfleuster triniaeth awdurdodedig ac safle ailgylchu metelau ar gyfer storio, dadlygru a datgymalu cerbydau 6

3.6 Rheolau Diwygiedig ar gyfer SR2012 Rhif 14 Cyfleuster triniaeth awdurdodedig ar gyfer ailgylchu metelau a storio, dadlygru a datgymalu cerbydau 7

**4. Set o reolau newydd arfaethedig 8**

4.1 Rheolau ac asesiad risg newydd ar gyfer cyfleuster triniaeth awdurdodedig ar gyfer ailgylchu metelau a chyfarpar trydanol ac electronig sy'n wastraff SR2015 Rhif 3. 8

**5 Cwestiynau ymgynghori 9**

**6 Ymateb i'r ymgynghoriad hwn 10**

# 1 Ynglŷn â'r ymgynghoriad hwn

Dogfen eglurhaol yw hon sy'n rhoi braslun o'r dogfennau rydym yn ymgynghori amdanynt yn ogystal â throsolwg o'r broses drwyddedu safonol. Mae wedi'i chynllunio i'ch helpu i'w deall a gwneud sylwadau arnynt.

## 1.1 Yr hyn rydym yn ymgynghori amdano

Mae'r Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol yn ein galluogi i ddatblygu ac adolygu rheolau safonol ar gyfer rhai gweithredoedd penodol. Rydym yn eu seilio ar ein dealltwriaeth o risg. Rydym yn gofyn am eich barn ynghylch p'un a ydym wedi nodi'n gywir y risgiau sy'n gysylltiedig â phob gweithgaredd ac a yw'r set o reolau diwygiedig yn briodol i ymdopi â'r risgiau hynny.

Mae'r ymgynghoriad yn ymwneud â'r dogfennau canlynol yn bennaf, a fydd ynghlwm neu ar gael ar-lein:

- **Asesiadau risg generig (gweler Adran 3 ac Adran 4 am ragor o wybodaeth):**

Mae'r rhain yn disgrifio'r risgiau mae pob math o weithgaredd yn eu hachosi i'r amgylchedd ac iechyd dynol a'r ffyrdd y gellir rheoli'r risgiau hyn. Maent yn diffinio'r terfynau risg y gellir eu rheoleiddio drwy ddefnyddio dulliau rheoli cyffredin, wrth barhau i amddiffyn yr amgylchedd hyd at lefel uchel.

- **Setiau o reolau safonol (gweler Adran 3 ac Adran 4 am ragor o wybodaeth):**

Mae'r rhain yn cynnwys yr holl reolau sy'n angenrheidiol er mwyn sicrhau bod y risgiau i'r amgylchedd ac iechyd dynol yn cael eu lleihau hyd at lefel dderbyniol ar gyfer y gweithgaredd hwn.

## 1.2 Yr hyn mae'r ymgynghoriad hwn yn ei olygu i chi

Rydym yn credu y bydd yr ymgynghoriad hwn o ddiddordeb penodol i'r canlynol:

**Gweithredwyr, cymdeithasau masnach, a busnesau:** dyma'ch cyfle i sicrhau bod y rheolau a'r asesiad risg generig yn gweithio i chi a'ch diwydiant a hefyd yn darparu'r diogelwch angenrheidiol i'r amgylchedd ac iechyd dynol. Hoffem dderbyn unrhyw awgrymiadau sydd gennych er mwyn sicrhau bod y rheolau sydd eisoes yn bodoli'n cael eu defnyddio mwy, ac am setiau eraill o reolau.

**Rheoleiddwyr eraill, y cyhoedd, grwpiau cymunedol a sefydliadau anllywodraethol sydd** â diddordeb mewn materion amgylcheddol: dyma'ch cyfle i sicrhau bod y rheolau a'r asesiadau risg yn gweithio i ddarparu'r diogelwch angenrheidiol i'r amgylchedd ac iechyd dynol, ac ar yr un pryd yn parhau i fod yn ddefnyddiol i'r diwydiant.

# 2 Trwyddedau safonol – sut maent yn gweithio

## 2.1 Beth yw trwydded safonol?

Mae **trwyddedau safonol** yn cynnwys un amod, sy'n cyfeirio at set sefydlog (neu setiau) o reolau safonol y mae'n rhaid i weithredwr gydymffurfio â nhw. Mae'r rheolau safonol yn diffinio'r gweithgareddau mae gweithredwr yn gallu eu gwneud ac yn nodi cyfyngiadau angenrheidiol ar y gweithgareddau hynny, megis cyfyngiadau ar allyriadau neu'r mathau o wastraff neu ddeunydd crai y gellir eu derbyn ar y safle. Cyhoeddir rheolau safonol yn dilyn proses o ymgynghori cyhoeddus. Dyma'r deuddegfed ymgynghoriad o'r fath.

Gall gweithredwr sydd am wneud gweithgaredd penodol edrych ar y rheolau safonol, ac os yw'n gallu cydymffurfio â nhw, gall y gweithredwr benderfynu ymgeisio am drwydded safonol. Rydym yn gallu cyflwyno'r drwydded yn gyflymach ac yn rhatach oherwydd nad oes gennym benderfyniadau i'w gwneud ynglŷn ag amodau trwydded sy'n benodol i'r safle. Mae'n rhaid i weithredwr na all ddiwallu anghenion y rheolau safonol wneud cais am **drwydded bwrpasol** a darparu gwybodaeth ychwanegol inni. Mae'n cymryd mwy o amser inni gyflwyno trwydded bwrpasol oherwydd bod rhaid inni gynnal asesiad mwy manwl o'r cais, penderfynu a ydym am gynnwys amodau sy'n benodol i'r safle, a gwneud gwaith ymgynghori yn unol â'n datganiad cyfranogiad cyhoeddus.[1]

Nid oes gennych hawl i apelio yn erbyn y rheolau mewn trwydded safonol oherwydd bod y weithred o wneud cais am drwydded safonol yn wirfoddol. Os yw gweithredwr yn dymuno newid y ffordd mae'r safle yn gweithredu er mwyn iddo weithredu y tu allan i gwmpas y rheolau safonol neu mae'n teimlo nad yw'r drwydded safonol yn gweithio bellach ar gyfer ei weithgaredd penodol, mae'n rhaid gwneud cais i newid i drwydded bwrpasol.

Mae'n rhaid i weithredwyr wneud cais am drwydded bwrpasol ar gyfer unrhyw weithgareddau a reoleiddir nad ydynt wedi cynnwys yn y rheolau safonol. Yn gyffredinol, mae'r gweithgareddau hyn yn cael effaith fwy sylweddol ar yr amgylchedd neu mae angen system reoli fwy cymhleth arnynt na'r gweithrediadau y gellid defnyddio rheolau safonol ar eu cyfer.

Caiff Trwyddedau Rheolau Safonol eu cyflwyno dim ond mewn achos lle mae gan y cyfleuster a reoleiddir un person cyfreithiol penodol fel gweithredwr. Diffinnir y gair 'Gweithredwr' yn Rheoliad 7 o'r Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol fel yr unigolyn sydd â rheolaeth dros weithrediad cyfleuster a reoleiddir. Os nid yw cyfleuster a reoleiddir wedi cael ei wneud yn weithredol, y person a fydd â rheolaeth drosto pan fydd yn weithredol yw'r gweithredwr.

---

[1]Gweithio gyda'n gilydd: eich rôl yn ein gwaith o benderfynu ar drwyddedu amgylcheddol

**Y Gweithredwr**

Y peth pwysig wrth benderfynu a yw rhywun yn weithredwr cyfleuster a reoleiddir yw p'un a yw'n gallu cynnal rheolaeth dros ei weithrediad. Mae'n rhaid iddo ddangos bod ganddo'r awdurdod a'r gallu i sicrhau cydymffurfiad â'r Drwydded Amgylcheddol.

Wrth asesu a oes gan y gweithredwr (neu weithredwr arfaethedig) yr awdurdod a'r gallu, rydym yn ystyried y ffactorau canlynol yn ogystal â rhai eraill.

A oes gan y gweithredwr/gweithredwr arfaethedig yr awdurdod a'r gallu i wneud y canlynol:

1) rheoli gweithrediadau ar y safle drwy reoli gweithrediadau'r gwaith o ddydd i ddydd, gan gynnwys dull a chyflymder y gwaith
2) sicrhau bod cydymffurfiad effeithiol ag amodau'r drwydded
3) penderfynu pwy fydd yn dal y swyddi allweddol a diswyddo aelodau staff sy'n anghymwys
4) gwneud penderfyniadau buddsoddi a/neu benderfyniadau ariannol eraill sy'n effeithio ar berfformiad y cyfleuster
5) sicrhau bod gweithgareddau a reoleiddir yn cael eu rheoli'n briodol mewn argyfwng.

Gall perchennog safle barhau i fod y gweithredwr yn ogystal â dal y drwydded lle mae'n gosod contract ar gyfer gweithgareddau cyn belled â'i fod yn parhau i gymryd cyfrifoldeb ac yn ymgymryd â goruchwyliaeth ddigonol.

## 2.2 Beth yw'r rheolau safonol?

Wrth ddatblygu setiau o **reolau safonol**, rydym yn cynnal un asesiad o risg ar gyfer gweithgarwch a wneir yn aml. Mae hyn yn ein galluogi i ddiffinio'r terfynau risg y gellir defnyddio'r rheolau oddi mewn iddynt. Mae'r terfynau risg hyn yn cynnwys nifer o gyfyngiadau megis maint, lleoliad a'r gwaith o reoli'r gweithrediadau. Y cyfyngiadau hyn fydd y rhai angenrheidiol i alluogi set gyson o reolau i leihau'r risg hyd at lefel dderbyniol. Byddai'r rheolau yr un peth ar gyfer pob gweithredwr sy'n ymgymryd â'r weithred benodol honno, waeth ble mae'r lleoliad. Mae rheolau ac asesiadau risg yn cael eu cyhoeddi ymlaen llaw er mwyn i weithredwyr a'r cyhoedd wybod yn union pa reolau byddwn yn eu gweithredu i weithgaredd arfaethedig.

Wrth ddatblygu'r terfynau risg ar gyfer pob set o reolau safonol, mae'n rhaid inni ddiogelu ansawdd amgylcheddol rhai derbynyddion sensitif penodol. Er enghraifft, mae'n bosibl bydd rheolau safonol yn cynnwys rheol sy'n mynnu peidio ag ymgymryd â gweithgaredd o fewn pellter penodol oddi wrth rai mathau o safleoedd gwarchod natur dynodedig, megis safleoedd Ewropeaidd.[2]

Nid yw'r rheolau ar gyfer rhai gweithrediadau yn caniatáu ymgymryd â gweithgareddau o fewn pellter penodol oddi wrth gwrs dŵr neu barth diogelu tarddiad dŵr daear. Bydd angen i weithredwyr wirio bod eu gweithgaredd yn cyd-fynd â'r rheolau cyn gwneud cais. Os bydd newid yn yr amgylchiadau lleol ar ôl i'r drwydded gael ei chyflwyno i'r fath raddau na fydd y gweithrediad yn cyd-fynd â'r rheolau safonol bellach (er enghraifft, dynodir safle cadwraeth o fewn y pellter sgrinio a

[2] Ardal Cadwraeth Arbennig, neu ymgeisydd amdani, ac Ardal Gwarchodaeth Arbennig, neu un arfaethedig, yng Nghymru a Lloegr. At ddibenion y rheolau safonol, mae safle Ramsar yn cael ei ystyried yn safle Ewropeaidd.

nodwyd) , mae'n bosibl y bydd angen i weithredwr uwchraddio'r gweithrediad er mwyn cynnal lefelau amddiffyn neu wneud cais i newid i drwydded bwrpasol.

Rydym wedi seilio'r rhan fwyaf o'n rheolau ar yr amcanion mae angen eu cyflawni. Maent yn nodi'r **hyn** rydym am i weithredwyr ei gyflawni, ond nid ydynt yn dweud wrthynt am **sut** i'w gyflawni. Eu cyfrifoldeb hwythau yw hwnnw. Nid yw'r dull hwn yn newydd ac roedd yn cael ei ddefnyddio mewn trefniadau blaenorol megis caniatadau gollyngiadau o ran ansawdd dŵr, trwyddedu gweithgareddau rheoli gwastraff, atal a rheoli llygredd, a rheoleiddio sylweddau ymbelydrol. Darperir canllawiau ar sut i gydymffurfio â'r rheolau rydym eisoes wedi'u cyhoeddi yn **'Sut i gydymffurfio â'ch trwydded amgylcheddol**', sydd ar gael ar GOV.UK.

## 2.3 Yr asesiad risg generig ar gyfer y gweithgaredd hwn

Rydym wedi paratoi asesiad generig risg ar gyfer y gweithgaredd hwn. Mae'r asesiad yn diffinio'r terfynau risg y gellir eu rheoleiddio drwy ddulliau rheoli cyffredin a sut i reoli'r risgiau'n briodol. Mae'r asesiad risg wedi cael ei gynnal gan ddefnyddio'r dull "tarddiad – llwybr – derbynnydd". Mae'r asesiad risg wedi'i rannu'n dair adran fras:

**1. Data a gwybodaeth** – mae'r adran hon yn cynnwys gwybodaeth am y derbynnydd, y tarddiad, y difrod a'r llwybr sy'n berthnasol i'r gweithgaredd o dan sylw.

**2. Dyfarniad** – rydym wedi cynnal yr asesiad risg i benderfynu ar y tebygolrwydd y bydd y derbynyddion yn agored i'r perygl, canlyniadau'r perygl a fydd yn digwydd, a maint cyffredinol y risg.

**3. Cam gweithredu** – bydd risgiau yn cael eu rheoli drwy osod rheolau safonol. O ran rheoli gwastraff asbestos, bydd hyn yn cynnwys cydymffurfiad â'r cynllun rheoli perthnasol. Byddwn yn rheoli gweddill y risgiau drwy gynnal asesiadau cydymffurfio, megis arolygiadau safle, er mwyn sicrhau bod gweithredwyr yn cydymffurfio â'r rheolau.

Fel y crybwyllwyd yn gynt, mae'n bosibl y bydd set o reolau safonol yn cynnwys rheol sy'n mynnu nad yw gweithgareddau yn cael eu cynnal o fewn pellter penodol o fathau o safleoedd gwarchod natur dynodedig. Mae sensitifrwydd cyffredinol cynefinoedd a grwpiau o rywogaethau i'r peryglon posibl oddi wrth gyfleusterau a reoleiddir gennym drwy'r Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol yn hysbys iawn. Gall difrod ddigwydd drwy beryglon megis llygriad gwenwynig, cyfoethogiad maethynnau, colli cynefinoedd, y broses siltio, y broses mygu, aflonyddu ac ysglyfaethu.

Mae'r rheolau pellter yn ein galluogi i hidlo allan y gweithgareddau na allent gael effaith ar nodweddion diddordeb y safleoedd a'r rhywogaethau hyn. Mae hyn yn rhan o'r terfynau risg cyffredinol ar gyfer pob gweithgaredd ac yn angenrheidiol oherwydd ni fyddwn yn ymgynghori â'r cyrff gwarchod natur o ran ceisiadau unigol ar gyfer trwyddedau safonol, yn unol â'n datganiad cyfranogiad cyhoeddus.

# 3. Setiau o reolau diwygiedig arfaethedig

## 3.1 Rheolau diwygiedig ar gyfer SR2008 Rhif 20 Cyfleuster (triniaeth awdurdodedig) ar gyfer storio, dadlygru a datgymalu cerbydau

Mae'r rheolau diwygiedig arfaethedig yn cyflwyno cyfyngiadau ar storio a thrin gwastraff peryglus er mwyn sicrhau bod gweithgareddau yn parhau i fod yn is na'r trothwyon newydd a osodwyd gan y Gyfarwyddeb Allyriadau Diwydiannol ac yn cael parhau fel gweithrediad gwastraff.

Nodwch nad yw'r cyfyngiadau hyn yn ymwneud â'r broses o ddadlygru a datgymalu â llaw cerbydau sydd wedi dod i ddiwedd eu hoes, ond maent yn berthnasol i'r broses o storio a thrin unrhyw ddeunyddiau neu gydrannau peryglus sy'n deillo o'r gweithgaredd hwnnw.

Rydym hefyd wedi gwneud sawl newid bach i'r rheolau a'u diffiniadau. Mae'r rhain yn cynnwys y canlynol:

i) Mae'r gwaith o drin batris asid plwm wedi cael ei wahardd yn benodol er mwyn eglurdeb ac er mwyn drychweddu'r geiriad mewn rheolau safonol cysylltiedig – mae gwaith didoli a gwahanu'r batris o fathau eraill o wastraff yn dal i gael ei ganiatáu.
ii) Mae cyfeiriadau at y Gyfarwyddeb Cerbydau sydd wedi dod i Ddiwedd eu Hoes a'r Gyfarwyddeb Batris a Chronaduron wedi cael eu dileu ac yn eu lle mae'r gofynion hynny wedi cael eu nodi yn y rheolau eu hunain er mwyn rhagor o eglurdeb – gwnaed hyn yn bennaf drwy ddiwygio tabl 2.3 ac ychwanegu tabl newydd 2.5.
iii) Mae diffiniadau wedi cael eu diwygio er mwyn adlewyrchu newidiadau yn y ddeddfwriaeth ac mae diffiniadau newydd wedi cael eu cyflwyno ar gyfer byrnu, cywasgu, torri â chyfarpar llaw, gwahanu a didoli, yn ogystal â cherbydau modur sy'n wastraff. Mae'r diffiniadau hyn eisoes wedi cael eu defnyddio mewn rheolau safonol mwy diweddar.

Nid oes unrhyw newidiadau arfaethedig i godi tâl ar gyfer y rheolau hyn.

## 3.2 Rheolau diwygiedig ar gyfer SR2008 Rhif 21 Safle Ailgylchu Metelau

Rydym wedi cyflwyno cyfyngiadau ar garpio gwastraff nad yw'n beryglus yn ogystal â storio gwastraff peryglus er mwyn sicrhau bod gweithgareddau yn parhau i fod yn is na'r trothwyon newydd a osodwyd gan y Gyfarwyddeb Allyriadau Diwydiannol ac yn cael parhau fel gweithrediadau gwastraff. Mae rhai diffiniadau wedi cael eu diwygio er mwyn adlewyrchu newidiadau yn y ddeddfwriaeth ac mae diffiniadau newydd wedi cael eu cyflwyno ar gyfer byrnu, cywasgu, graddio, gwahanu a didoli. Mae'r diffiniadau hyn eisoes wedi cael eu defnyddio mewn rheolau safonol mwy diweddar.

Nid oes unrhyw newidiadau arfaethedig i godi tâl ar gyfer y rheolau hyn.

## 3.3 Rheolau diwygiedig ar gyfer SR2008 Rhif 23 Cyfleuster triniaeth awdurdodedig ar gyfer cyfarpar trydanol ac electronig sy'n wastraff

Rydym wedi cyflwyno cyfyngiadau ar storio a thrin cyfarpar trydanol ac electronig sy'n wastraff peryglus yn ogystal â charpio cyfarpar trydanol ac electronig sy'n wastraff nad yw'n beryglus er mwyn sicrhau bod gweithgareddau yn parhau i fod yn is na'r trothwyon newydd a osodwyd gan y Gyfarwyddeb Allyriadau Diwydiannol ac yn cael parhau fel gweithrediadau gwastraff. Nodwch nad yw'r cyfyngiadau o ran cyfarpar trydanol ac electronig sy'n wastraff peryglus yn cynnwys didoli, atgyweirio neu adnewyddu cyfarpar trydanol ac electronig sy'n wastraff â llaw, ond maent yn cynnwys triniaethau ffisegol-gemegol megis carpio.

Nid yw'r rheolau hyn yn cynnwys trin cyfarpar trydanol ac electronig sy'n wastraff ac yn cynnwys sylweddau sy'n teneuo'r osôn, ond rydym yn cynnig eu newid er mwyn caniatáu derbyn cyfarpar trydanol ac electronig sy'n wastraff ac yn cynnwys sylweddau sy'n teneuo'r osôn at ddibenion storio'n unig. Bydd hyn yn unioni'r rheolau hyn â'r eithriad T11, sy'n caniatáu storio ond nid trin cyfarpar trydanol ac electronig sy'n wastraff ac yn cynnwys sylweddau sy'n teneuo'r osôn.

Mae'r cyfeiriadau at y Gyfarwyddeb Batris a Chronaduron ac Atodiad VIII o'r Gyfarwyddeb Cyfarpar Trydanol ac Electronig sy'n Wastraff wedi cael eu dileu gan fod eu gofynion priodol eisoes wedi cael eu nodi yn y rheolau eu hunain.

Rydym hefyd wedi gwneud newidiadau bach i ddiffiniadau er mwyn iddynt gyfeirio at y fersiynau newydd o gyfarwyddebau lle bo'n berthnasol.

Nid oes unrhyw newidiadau arfaethedig i godi tâl ar gyfer y rheolau hyn.

## 3.4 Rheolau diwygiedig ar gyfer SR2011 Rhif 2 Safle Ailgylchu Metelau

Rydym wedi cyflwyno cyfyngiadau ar storio gwastraff peryglus er mwyn sicrhau bod gweithgareddau yn parhau i fod yn is na'r trothwyon newydd a osodwyd gan y Gyfarwyddeb Allyriadau Diwydiannol ac yn cael parhau fel gweithrediadau gwastraff.

Nid oes unrhyw newidiadau arfaethedig i godi tâl ar gyfer y rheolau hyn.

## 3.5 Rheolau diwygiedig ar gyfer SR2011 Rhif 3 Cyfleuster triniaeth awdurdodedig ac safle ailgylchu metelau ar gyfer storio, dadlygru a datgymalu cerbydau

Rydym wedi cyflwyno cyfyngiadau ar storio a thrin gwastraff peryglus er mwyn sicrhau bod gweithgareddau yn parhau i fod yn is na'r trothwyon newydd a osodwyd gan y Gyfarwyddeb Allyriadau Diwydiannol ac yn cael parhau fel gweithrediadau gwastraff.

Nodwch nad yw'r cyfyngiadau hyn yn ymwneud â'r broses o ddadlygru a datgymalu â llaw cerbydau sydd wedi dod i ddiwedd eu hoes, ond maent yn berthnasol i'r broses o storio a thrin unrhyw ddeunyddiau neu gydrannau peryglus sy'n deillo o'r gweithgaredd hwnnw.

Mae cyfeiriadau at y Gyfarwyddeb Cerbydau sydd wedi dod i Ddiwedd eu Hoes a'r Gyfarwyddeb Batris a Chronaduron wedi cael eu dileu ac yn eu lle mae'r gofynion hynny wedi cael eu nodi yn y rheolau eu hunain er mwyn rhoi rhagor o eglurdeb – gwnaed hyn yn bennaf drwy ddiwygio tabl 2.3 ac ychwanegu tabl newydd 2.5.

Nid oes unrhyw newidiadau arfaethedig i godi tâl ar gyfer y rheolau hyn.

## 3.6 Rheolau Diwygiedig ar gyfer SR2012 Rhif 14 Cyfleuster triniaeth awdurdodedig ar gyfer ailgylchu metelau a storio, dadlygru a datgymalu cerbydau

Rydym wedi cyflwyno cyfyngiadau ar drin gwastraff peryglus er mwyn sicrhau bod y gweithgareddau hyn yn parhau i fod yn is na'r trothwyon newydd a osodwyd gan y Gyfarwyddeb Allyriadau Diwydiannol ac yn cael parhau fel gweithrediadau gwastraff.

Nodwch nad yw'r cyfyngiadau hyn yn ymwneud â'r broses o ddadlygru a datgymalu â llaw gerbydau sydd wedi dod i ddiwedd eu hoes, ond maent yn berthnasol i'r broses o drin unrhyw ddeunyddiau neu gydrannau peryglus sy'n deillio o'r gweithgaredd hwnnw. Mae terfyn presennol o 50 tunnell ar storio gwastraff peryglus – mae hwn yn cynnwys gwastraff i'w waredu ac i'w adfer fel ei gilydd. Rydym erbyn hyn yn cynnig ychwanegu terfyn penodol o 10 tunnell o wastraff peryglus yn cael ei storio i'w waredu er mwyn alinio'r rheolau hyn â setiau o reolau tebyg a sicrhau nad yw cyfanswm mawr o wastraff peryglus sy'n aros i gael ei waredu yn cael cronni ar y safle.

Mae'r cyfyngiadau ar ollwng dŵr wyneb o'r safle wedi cael eu newid. Rydym yn cynnig caniatáu gollwng dŵr wyneb o'r man y derbynnir y cerbyd a'r man storio drwy system sydd wedi cael ei dylunio a'i llunio er mwyn i ddŵr a ollyngir beidio â chael effaith andwyol ar y cyrff sy'n derbyn y dŵr. Bydd hyn yn rhoi opsiwn arall ar gyfer safleoedd lle nad yw'n bosib neu'n ymarferol cael cysylltiad â charthffos fudr. Mae diffiniad o 'system ddraenio wedi'i selio' wedi cael ei ddiwygio er mwyn adlewyrchu hyn. Bydd y gofyniad i weithgareddau dadlygru a thriniaethau eraill gael eu cynnal ar arwyneb anathraidd sy'n draenio i garthffos frwnt neu sỳmp dall yn unig yn aros yn ddinewid.

Mae cyfeiriadau at y Gyfarwyddeb Cerbydau sydd wedi dod i Ddiwedd eu Hoes a'r Gyfarwyddeb Batris a Chronaduron wedi cael eu dileu ac yn eu lle mae'r gofynion hynny wedi cael eu nodi yn y rheolau eu hunain er mwyn rhoi rhagor o eglurdeb – gwnaed hyn yn bennaf drwy ddiwygio tabl 2.3 ac ychwanegu tabl newydd 2.5.

Nid oes unrhyw newidiadau arfaethedig i godi tâl ar gyfer y rheolau hyn.

# 4. Set o reolau newydd arfaethedig

## 4.1 Rheolau ac asesiad risg newydd ar gyfer cyfleuster triniaeth awdurdodedig ar gyfer ailgylchu metelau a chyfarpar trydanol ac electronig sy'n wastraff SR2015 Rhif 3.

Mae'r rheolau arfaethedig yn caniatáu i weithgareddau ailgylchu metelau a thrin cyfarpar trydanol ac electronig sy'n wastraff gael eu gwneud ar yr un safle. Maent yn gyfuniad o ddwy reol bresennol, sef SR2008 Rhif 21 Safle Ailgylchu Metelau a SR2008 Rhif 23 Cyfleuster triniaeth awdurdodedig ar gyfer cyfarpar trydanol ac electronig sy'n wastraff, er nad ydynt yn disodli'r setiau o reolau hynny. Mae cryn orgyffwrdd rhwng y ddau weithgaredd hyn a'r bwriad yw rhoi'r opsiwn i weithredwyr ymgymryd â'r ddau o dan un set o reolau safonol.

Byddai'r taliadau ar gyfer y drwydded safonol newydd yn cynnwys y canlynol:

* tâl ymgeisio o £1,630
* tâl trosglwyddo o £980, e.e. newid gweithredwr ar y safle
* tâl ildio o £3,590 ar gyfer ymdrin â'r hysbysiad
* tâl cynhaliaeth blynyddol o £3,420 i dalu am arolygiadau.

# 5 Cwestiynau ymgynghori

Yr ymgynghoriad hwn yw'ch cyfle i gyfrannu at yr adolygiadau arfaethedig i'r set bresennol o reolau a rheol safonol newydd 2015 Rhif 3. Dylid cyhoeddi'r newidiadau hyn erbyn canol 2015.

Byddem yn croesawu cael eich adborth ar y cwestiynau isod yn benodol:

C1. SR2008 Rhif 23 A fydd caniatáu storio cyfarpar sy'n cynnwys sylweddau sy'n teneuo'r osôn, er na ellir ei drin, yn rhoi rhagor o hyblygrwydd i safleoedd sy'n gweithredu o dan y rheolau safonol hyn?

C2. SR2011 Rhif 3 a SR2012 Rhif 14. A ydych yn cefnogi'r cynnig hwn ac a fydd darparu opsiynau draeniad amgen ar gyfer cerbydau sydd heb eu dadlygru o fudd i weithredwyr wrth gynyddu nifer y safleoedd sy'n gallu gweithredu o dan y rheolau hyn?

C3. SR2012 Rhif 14 A ydych yn cytuno bod y rheolau safonol hyn ar gyfer gweithrediadau adfer yn bennaf, bod y cyfyngiadau ar storio gwastraff peryglus yn rhagofalus, ac na fydd yn cael rhyw lawer o effaith ymarferol?

C4. SR2015 Rhif 3. A ydych yn cefnogi'r egwyddor o gyfuno rheolau safonol yn y sector ailgylchu metelau ac a ydych yn credu y bydd rhagor o weithredwyr yn gallu elwa ar reolau safonol o ganlyniad i hyn?

C5. A ydym wedi nodi'n gywir yr holl risgiau ar gyfer y gweithgareddau hyn, fel y'u disgrifiwyd yn yr asesiadau risg generig?

C6. A ydych yn cytuno â'r newidiadau arfaethedig rydym wedi'u nodi yn yr ymgynghoriad hwn?

C7. Dywedwch wrthym os oes gennych unrhyw farn neu sylwadau ar y newidiadau hyn nad ydynt wedi cael sylw priodol yn y cwestiynau blaenorol.

# 6 Ymateb i'r ymgynghoriad hwn

## 6.1 Dyddiadau pwysig

Bydd yr ymgynghoriad yn dechrau ar 23 Rhagfyr 2016 a bydd yn rhedeg tan 20 Chwefror 2015.

## 6.2 Sut i ymateb

Gallwch weld y dogfennau a chwestiynau ymgynghori ar-lein ar www.cyfoethnaturiol.cymru. Pe hoffech ofyn i fersiwn printiedig o'r ddogfen gael ei hanfon atoch, cysylltwch â'n Canolfan Gofal Cwsmeriaid drwy e-bost, ffôn neu bost:

E-bost: generalenquiries@naturalresourceswales.gov.uk
Ffôn: 0300 065 3000
Cyfeiriad Post: Cyfoeth Naturiol Cymru, Tŷ Cambria, Heol Casnewydd, Caerdydd, CF24 0T

Gallwch gyflwyno eich ateb drwy e-bost neu lythyr. Anfonwch eich ateb wedi'i gwblhau erbyn 23 Rhagfyr 2016 i'r cyfeiriad uchod.

## 6.3 Sut bydd yr atebion yn cael eu defnyddio?

Byddwn yn defnyddio'r atebion o'r ymgynghoriad hwn i lywio cynigion i Lywodraeth Cymru. Bydd staff Cyfoeth Naturiol Cymru sy'n ymdrin â'r ymgynghoriad hwn yn gweld yr holl atebion yn llawn.

## 6.4 Sut byddwn yn defnyddio'ch gwybodaeth

Trwy gydol yr ymgynghoriad, byddwn yn sicrhau bod yr holl sylwadau (ar wahân i wybodaeth bersonol) ar gael yn gyhoeddus ar wefan Cyfoeth Naturiol Cymru. Mae hyn yn cynnwys sylwadau  a dderbynnir ar-lein, drwy e-bost, post a thrwy ffacs, oni bai eich bod wedi gofyn yn benodol i'ch ateb gael ei gadw'n gyfrinachol. Dim ond enwau sefydliadau sy'n ateb ac nid unigolion fydd yn cael eu cyhoeddi.

Os byddwch yn ateb ar-lein neu ddarparu cyfeiriad e-bost, byddwch yn derbyn cydnabyddiaeth o'ch ateb. Ar ôl i'r ymgynghoriad gael ei gau, bydd crynodeb o'r atebion yn cael ei gyhoeddi ar wefan Cyfoeth Naturiol Cymru erbyn diwedd mis Mawrth 2015. Byddwn yn cysylltu â chi er mwyn rhoi gwybod i chi pan fydd hwn ar gael. Byddwch hefyd yn cael eich hysbysu am unrhyw ymgynghoriadau ar fasnau afon sydd ar y gweill oni bai eich bod yn gofyn fel arall.

Yn unol â Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, mae'n bosibl y bydd yn ofynnol inni gyhoeddi eich ateb yn yr ymgynghoriad hwn, ond ni fydd hwn yn cynnwys unrhyw wybodaeth bersonol. Os byddwch wedi gofyn i'ch ateb gael ei gadw'n gyfrinachol, mae'n dal yn bosibl y bydd yn ofynnol i ni ddarparu crynodeb ohono.